

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Trosolwg

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru


Rhagfyr 2019




Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi mabwysiadu **Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru**, er mwyn sicrhau y gellir gwneud penderfyniadau cynaliadwy yn y sector morol sy'n ystyried budd y genhedlaeth hon a budd cenedlaethau'r dyfodol.



- > Nod y cynllun yw ategu **gweledigaeth y DU o gefnforoedd a moroedd glân, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol.**
- > Mae bellach angen i awdurdodau cyhoeddus perthnasol ystyried Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru pan fyddant yn gwneud penderfyniadau y mae'n bosibl y byddant yn effeithio ar ardal y Cynllun.
- > Bydd y polisïau ynddo'n sail i benderfyniadau awdurdodau cyhoeddus – sef defnyddwyr pwysig y cynllun, yn ogystal â'r rheini sydd am gynnig gweithgaredd neu ddatblygiad.




Cefndir




- > Mae ardal y Cynllun Morol o amgylch Cymru yn cynnwys **32,000 km²** o fôr a **2,120 km** o arfordir.
- > Mae dalgylch Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cynnwys ardal y glannau hyd at **12 milltir forol** o benllanw'r gorllanw ac ardal y môr mawr y tu hwnt i 12 milltir forol.
- > Mae'r cynllun yn **ystyried 20 mlynedd**.
- > Mae cynlluniau tebyg yn cael eu gwneud ledled y DU a chan ein cyndogion o amgylch Môr Iwerddon.
- > Rydym wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, cynghorau lleol ac awdurdodau cyhoeddus eraill i sicrhau ffordd gydgysylltiedig o weithio.
- > Mae'r cynllun yn cyd-fynd â chynlluniau morol eraill y DU, a bydd hefyd yn gyson â chynlluniau defnyddio tir, gan gynnwys Cynlluniau Datblygu Lleol a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd pan gaiff hwnnw ei gyhoeddi.




Y Polisiau Cyffredinol



- > Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cynnwys amrediad eang o faterion i'w hystyried (wedi eu hamlinellu fel cyfres o **Bolisïau Cyffredinol**) gan gynnwys:
 - gwarchod natur
 - ansawdd dŵr
 - defnydd cynaliadwy
 - morluniau
 - cymunedau arfordirol a thwf economaidd
 - effeithiau cronol
 - treftadaeth etc.
- > Mae'r Polisiau Cyffredinol hyn wedi eu trefnu yn ôl themâu **Amcanion Morol Lefel Uchel y DU**.
- > Byddant yn cael eu defnyddio i lywio cynigion wrth iddynt gael eu cyflwyno, ac unrhyw benderfyniadau ynghylch caniatâd neu awdurdod a wneir gan awdurdodau cyhoeddus. Bydd polisiau cyffredinol yn cael eu cymhwyso i bob penderfyniad.




Polisïau'r Sector




- > Mae'r Cynllun yn **cynnwys amcanion a pholisïau'r sector** ar gyfer **11 o sectorau gwahanol** sy'n gweithredu yn yr ardal forol. Y sectorau hynny yw:

Agregau, Dyframaethu, Amddiffyn, Carthu a Gwaredu, Pysgodfeydd, Ynni Adnewyddadwy, Olew a Nwy, Porthladdoedd a Morgludo, Ceblau o dan y Môr, Trin a Gwaredu Dŵr Wyneb a Dŵr Gwastraff a Thwristiaeth a Hamdden.

- > Mae polisïau'r sector yn cynnwys polisïau 'cefnogi' a/neu bolisïau 'diogelu' i helpu i sicrhau bod pob sector yn gallu datblygu mewn ffordd gynaliadwy. Mae polisïau cefnogi yn annog twf cynaliadwy o fewn sector penodol dros gyfnod y cynllun.
- > Mae polisïau sy'n diogelu'r sector yn ceisio diogelu gweithgareddau sydd wedi ennill eu plwyf ac wedi cael eu hawdurdodi – neu gynigion sydd eisoes wedi cael eu datblygu – rhag effeithiau andwyol gweithgareddau eraill.



Edrych i'r dyfodol



- > Mae'r cynllun yn darparu ar gyfer cyhoeddi **Hysbysiadau Cynllunio Morol** ac ar gyfer nodi **Ardaloedd Adnoddau Strategol**. Bydd Ardaloedd Adnoddau Strategol yn diogelu ardaloedd lle mae adnoddau naturiol sydd o bwys penodol i sector (e.e. ynni'r llanw, ynni'r tonnau, tywod ar gyfer adeiladu ac ati) a byddant o fewn ardaloedd adnoddau ehangach sy'n berthnasol i'r sector hwnnw.
- > Nawr mae'r cynllun wedi cael ei fabwysiadu a'i gyhoeddi, bydd yn hanfodol monitro ac adrodd ar ei effeithiolrwydd, ac rydym yn gweithio ar fframwaith i'n helpu ni i wneud hyn.
- > Er nad yw cynllunio'n gysyniad newydd, mae fframwaith cynllunio morol statudol i lywio'r ffordd rydym yn defnyddio'r môr yn gysyniad newydd sbon. Cyhoeddi Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru yw'r cam cyntaf mewn proses a fydd yn ein helpu i sicrhau bod ein moroedd yn cael eu datblygu'n gynaliadwy.
- > Rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn ystod y broses hon i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hadlewyrchu yn y cynllun, a byddwn yn parhau i drafod â'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol, datblygwyr a defnyddwyr eraill y môr i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu mewn modd effeithiol.